Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

Adroddiad yr Arolygydd

Atodiad A (RHAN 1)

Cofrestr Newidiadau Materion sy’n Codi wedi’u cynnig gan y Cyngor (Rhifau NMC wedi’u hargymell wedi’u **hamlygu**)

**Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC): Pennod 1 – Pennod 6**

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| | | **Cyflwyniad** |
| **NMC 1** | 1 - 6 | ***Dileu'r testun ym mharagraffau 1 – 6 yn gyfan gwbl oherwydd ei fod yn disgrifio'r cam Newid â Ffocws ac felly nid oes ei angen mwyach. Oherwydd bod y Newid Materion sy'n Codi yma yn effeithio ar gyfres o baragraffau/ adran gyfan, ni ddangosir yr eirfa sy'n cael ei ddileu yma er mwyn arbed papur. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Cyfansawdd diwygiedig (Ionawr 2017 – DA043) yn dangos yr eirfa wedi'i ddileu.*** |
| | | **Pennod 1 Crynodeb Weithredol** |
| **NMC 2** | 1.1.– 1.33 | ***Dileu Pennod 1 Crynodeb Weithredol o'r Cynllun er mwyn symleiddio cynnwys y Cynllun. Oherwydd bod y Newid Materion sy'n Codi yma yn effeithio ar bennod gyfan, ni ddangosir yr eirfa sy'n cael ei ddileu yma er mwyn arbed papur. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Cyfansawdd diwygiedig (Ionawr 2017 – DA043) yn dangos yr eirfa wedi'i ddileu.***<br><br>***Nodyn: bydd newidiadau i rifau penodau, rhifau paragraffau, ac ati a fydd eu hangen yn sgil y Newid Materion sy'n Codi yma yn cael eu hadolygu a'u cyflwyno yn y fersiwn mabwysiadu o'r Cynllun a gaiff ei argraffu.*** |
| **NMC 3** | 2.2 & Tabl 4 | ***Dileu oherwydd nad oes ei angen bellach:***<br><br>~~Pan gaiff y Cynllun ei fabwysiadu fe fydd yn disodli'r Cynlluniau Datblygu a welir yn y tabl canlynol. Fe fydd hefyd yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Môn (gafodd ei stopio yn 2005) a Pholisïau Cynllunio Dros Dro, sy'n ystyriaeth cynllunio berthnasol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio gan Gyngor Sir Ynys Môn ar hyn o bryd.~~<br><br>~~Tabl 4: Rhestr o'r Cynlluniau Datblygu a gaiff eu disodli ar ôl mabwysiadu'r Cynllun~~ |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy’n Codi |
|---|---|---|
| | | ~~Ardal Awdurdod Cynllunio Môn~~: ~~Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993)~~; ~~Cynllun Lleol Ynys Môn (1996)~~<br>~~Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd~~: ~~Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009)~~ |
| **NMC 4** | 2.3 | ***Diwygio i roi geirfa sy’n cyfeirio at y Cynllun wedi’i fabwysiadu:***<br><br>**Cafodd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ei fabwysiadu yn ffurfiol ar (*rhoi dyddiad)* 2017,** ~~Unwaith y caiff y Cynllun ei fabwysiadu~~ **a** bydd rhan fwyaf o’r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ardal y ddau Awdurdod Cynllunio’n cael eu selio ar gynnwys y Cynllun. |
| **NMC 5** | 2.4 | ***Diwygio i roi geirfa sy’n cyfeirio at y Cynllun yn y cam ar ôl ei fabwysiadu:***<br><br>~~Bydd y~~ **Mae’r** Cynllun yn ymdrin ag Ynys Môn a Gwynedd, ond nid yw’r rhannau o Wynedd sydd du mewn i Barc Cenedlaethol Eryri yn rhan ohono. Mae Map 1 yn dangos ardal y Cynllun. Nid yw’n isranbarth na’n ardal weinyddol ffurfiol ond, tra bod gan bob ardal ei gymeriad arbennig ei hun, mae’r ddau Gyngor yn credu bod yna berthynas swyddogaethol, economaidd, isadeiledd a pholisi trawsffiniol cryf rhyngddynt. Golyga hyn bod cydweithio ar gynllun datblygu **wedi** ~~yn~~ gwneud synnwyr cynllunio ac economaidd. |
| **NMC 6** | 2.6 | ***Diwygio i roi geirfa sy’n cyfeirio at y Cynllun yn y cam ar ôl ei fabwysiadu:***<br><br>~~Bydd yn~~ **Mae’n** dweud beth **ydi’r** ~~fydd y~~ strategaeth a’r amcanion ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ardal Awdurdodau Cynllunio Môn a Gwynedd ac ~~yn~~ **mae’n** cynnwys polisïau a ddefnyddir i weithredu nhw dros gyfnod o 15 mlynedd (2011 i 2026). Fe fydd gan y Cynllun ddylanwad arwyddocaol ar ddatblygiad yr ardal gyfan a’r cymunedau unigol. ~~Fe fydd yn~~ **Mae’n** darparu arweiniad ynglŷn â lle bydd tai newydd, cyfleoedd gyflogaeth a chyfleusterau hamdden a chymunedol yn cael eu darparu yn yr ardal. Defnyddir y Cynllun i benderfynu pa ddatblygiadau fydd yn cael caniatâd yn y dyfodol gan y Cynghorau ac yn lle. |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| | | |
| **NMC 7** | 2.7 | ***Dileu hwn oherwydd ceir cyfeiriad at y profion cadernid mewn man arall yn y Cynllun:***<br><br>~~Mae gofyn bod y Cynllun yn 'gadarn', h.y. yn arddangos barn dda ac y gellir ymddiried ynddo. Fe fydd rhaid edrych ar y materion sy'n bwysig i'r ardal, ei selio ar dystiolaeth am yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd, ac fe fydd rhaid rhoi ystyriaeth deg i ddewisiadau amgen ymarferol. Bydd y Cynllun yn cael ei bwyso a'i fesur yn erbyn y Profion Cadernid. Mae'r rhain yn cyfeirio at gynnwys y Cynllun yn ogystal â'r prosesau ar gyfer ei gynhyrchu. Atgynhyrchir y Profion yn Atodiad 1.~~ |
| **NMC 8** | 2.8 | ***Diwygio i gyfeirio at Asesiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol ar y cyd yn ogystal ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad Iaith Gymraeg:***<br><br>Dangosir y broses o baratoi'r Cynllun yn Ffigwr 2, **a gweler bod yna nifer o gamau amlwg a chydberthnasol yn y broses o baratoi'r Cynllun**. **Yn ogystal â chwrdd â gofynion pob un o'r camau yn y broses paratoi cynllun, 'roedd angen i'r Cynghorau ymgymryd ag Asesiad Cynaliadwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ar y cyd o'r Cynllun. Mae hyn yn gwneud yn siŵr bod cynaliadwyedd wrth galon y broses paratoi cynllun, a bod effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd polisïau a dynodiadau yn cael eu hasesu i gydymffurfio gydag egwyddorion cynaliadwyedd. Fe wnaeth Asesiad Iaith Gymraeg ddylanwadu ar y AC/ AAS ar y cyd, er mwyn gwneud yn siŵr bod lles yr iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth o'r cychwyn. Mae Rheoliadau Cynefinoedd Ewropeaidd (92/43/EEC) hefyd yn dweud bod angen ymgymryd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) o'r Cynllun. Mae hyn yn sicrhau bod effeithiau sylweddol tebygol y Cynllun ar safleoedd Ewropeaidd o werth cadwraeth natur yn cael sylw.** |
| **NMC 9** | 2.9 | ***Diwygio i gyfeirio at Atodiad 1 o'r Cynllun a chyfeirio at le gallir cael mwy o wybodaeth am y broses:***<br><br>Cafodd y Cynllun ei bwyso a'i fesur yn erbyn y Profion Cadernid. Mae'r rhain yn cyfeirio at gynnwys polisi'r Cynllun yn ogystal â'r prosesau ar gyfer ei gynhyrchu. **Mae'r Profion wedi cael eu hailadrodd yn Atodiad 1. Gallir cael mwy o wybodaeth am y broses paratoi'r Cynllun ar wefannau'r Cynghorau yn www.gwynedd.llyw.cymru/cdll a www.ynysmon.gov.uk/cdll** |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| **NMC 10** | 2.9 Ffigwr 2 | ***Disodli Ffigwr2 gydag un amgen er mwyn rhoi darlun mwy cyfredol o'r broses paratoi Cynllun (gweler Atodiad 1 i'r gofrestr yma)*** |
| **NMC 11** | 2.10 – 2.19 | ***Dileu'r testun sydd ym mharagraffau 2.10 i 2.19 yn gyfan gwbl. 'Roedd y rhan yma o'r Cynllun yn rhoi disgrifiad o'r gwahanol gamau yn y broses paratoi'r Cynllun. Nid oes angen y manylder yma yn y Cynllun mabwysiedig. Oherwydd bod y Newid Materion sy'n Codi yma yn effeithio ar gyfres o baragraffau, ni ddangosir yr eirfa sy'n cael ei ddileu yma er mwyn arbed papur. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Cyfansawdd diwygiedig (Ionawr 2017 – DA043) yn dangos yr eirfa wedi'i ddileu.*** |
| **NMC 12** | Paragraff newydd 2.19a | ***Cynnwys paragraff newydd i gyfeirio at y camau mabwysiadu, monitro ac adolygu:***<br><br>**Mae mabwysiadu'r Cynllun yn cyfateb i'r cam olaf yn y broses paratoi'r Cynllun. Bydd monitro ac adolygu yn parhau yn ystod oes y Cynllun, h.y. hyd at 31ain Rhagfyr 2026.** |
| **NMC 13** | 2.20 – 2.22 | ***Dileu'r testun ym mharagraffau 2.20 – 2.22 yn gyfan gwbl. 'Roedd y rhan yma o'r Cynllun yn rhoi disgrifiad o'r gwahanol benodau yn y Cynllun oherwydd nad oes angen y lefel yma o fanylion ar gyfer y Cynllun mabwysiedig. Oherwydd bod y Newid Materion sy'n Codi yma yn effeithio ar gyfres o baragraffau, ni ddangosir yr eirfa sy'n cael ei ddileu yma er mwyn arbed papur. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Cyfansawdd diwygiedig (Ionawr 2017 – DA043) yn dangos yr eirfa wedi'i ddileu.*** |
| **NMC 14** | Paragraff newydd 2.22a | ***Cynnwys geirfa newydd i roi disgrifiad cryno o gynnwys y Cynllun:***<br><br>**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma**<br><br>**Mae'r Cynllun yn cynnwys Gweledigaeth ac Amcanion ar gyfer y Cynllun, Strategaeth a chyfres o Bolisïau Strategol a Manwl ac mae'n darparu fframwaith fonitro. Mae'r fframwaith yn cynnwys dangosyddion, targedau polisi a throthwyon ar gyfer gweithred bellach yn gysylltiedig â'r polisïau perthnasol, a bydd yn ffurfio sail ar gyfer mesur effeithiolrwydd polisïau'r Cynllun. Mae'r rhan yma o'r Cynllun felly yn rhoi sail ar gyfer paratoi'r Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae'r Cynllun yn cynnwys Map Cynigion, sy'n dangos pob un o bolisïau a chynigion y Cynllun sydd gan elfen ofodol iddynt, heblaw am y darluniadau gofodol sy'n cael eu penderfynu gan** |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| | | **fecanweithiau eraill, e.e. AHNE. Cynhwysir y math olaf o wybodaeth ar Fap Cyfyngiadau. Er nad yw Map Cyfyngiadau yn rhan o'r Cynllun, lle y bo'n briodol, mae'r polisïau yn cyfeirio at y dynodiadau a ddangosir arno.** |
| **NMC 15** | Paragraff newydd 2.22b | ***Cynnwys geirfa newydd i roi arweiniad ynglŷn â'r angen i ystyried y cynllun yn ei gyfanrwydd:*** <br><br> **Rhaid darllen y cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae pob polisi yn rhyngberthyn â'i gilydd ac fe ddylid eu darllen efo'i gilydd i ddeall eu heffaith cyfunol ar gynnig cynllunio. Bydd penderfyniadau ar gynigion yn rhoi ystyriaeth i bolisïau perthnasol yn y Cynllun a gofynion polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, sydd i'w gweld mewn ystod o ddogfennau polisi, datganiadau a nodiadau cyngor a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.** |
| **NMC 16** | 2.23 – 2.29 | ***Dileu'r holl eirfa ym mharagraffau 2.23 – 2.29 oherwydd bod yr eirfa yn disgrifio'r ymgynghoriad cyhoeddus am y Cynllun Adnau ac felly nid oes eu hangen bellach. Oherwydd bod y Newid Materion sy'n Codi yma yn effeithio ar gyfres o baragraffau, ni ddangosir yr eirfa sy'n cael ei ddileu yma er mwyn arbed papur. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Cyfansawdd diwygiedig (Ionawr 2017 – DA043) yn dangos yr eirfa wedi'i ddileu.*** |
| | | **Pennod 3 Cyd-destun polisi** |
| **NMC 17** | 3.1 | ***Dileu'r cyfeiriad i 'Adnau'. Cafodd y newid yma ei wneud mewn lleoedd eraill yn y Cynllun er mwyn sicrhau cysondeb. Cael gwared â'r cyfeiriad at y Papur Testun o'r paragraff er mwyn symleiddio'r Cynllun.*** <br><br> Mae yna nifer o gynlluniau, strategaethau a datganiadau polisi cenedlaethol, isranbarthol a lleol yn rhoi'r fframwaith ar gyfer datblygiad yn ardal y Cynllun. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn ei gwneud yn ofynnol bod cynlluniau datblygu lleol yn cael eu paratoi a'u bod yn rhoi sylw i'r dogfennau yma. Mae'r rhan yma o'r Cynllun ~~Adnau'n~~ **yn** crynhoi'r **ddeddfwriaeth a'r** ~~fframwaith~~ polisi cynllunio **cenedlaethol** sy'n berthnasol i ardal y Cynllun. ~~Ceir rhestr fanwl o'r cynlluniau, rhaglenni a pholisïau sy'n gosod y cyd-destun ym Mhapur Testun 2 Strategaethau a Chynlluniau Perthnasol ac yn Adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd ac Adroddiad Sgrinio'r Asesiadau Rheoliadau~~ |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| | | ~~Cynefinoedd, sy'n cael eu cyhoeddi fel dogfennau cefndirol yr un pryd a'r Cynllun Adnau.~~ |
| **NMC 18** | 3.2 | ***Diweddaru'r Cynllun i gyfeirio at Bolisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9.Cafodd y newid yma ei wneud yn rhannau eraill o'r Cynllun i sicrhau cysondeb a bod y Cynllun yn gyfredol.***<br><br>Polisi Cynllunio Cymru ~~(Gorffennaf 2014)~~ **<u>(Argraffiad 9, Tachwedd 2016)</u>** |
| **NMC 19** | 3.4 | ***Dileu'r cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Mwynau oherwydd bod yr agwedd yma o bolisi cynllunio cenedlaethol wedi cael ei gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9***<br><br>~~Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2000)~~<br><br>~~Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yw dogfen Llywodraeth Cymru sy'n rhoi polisi cynllunio defnydd tir ar gyfer cloddio am fwynau a datblygu cysylltiedig yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys yr holl fwynau a'r sylweddau sydd yn y tir, ac arno ac oddi tano a gloddir naill ai drwy gloddio o dan ddaear neu drwy weithio ar yr wyneb. Ategir y ddogfen honno gan Nodiadau Cyngor Technegol sy'n ymwneud â Mwynau.~~ |
| **NMC 20** | Paragraff newydd 3.6a | ***Cynnwys cyfeiriad i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015***<br><br>**<u>Deddf Cynllunio (Cymru) 2015</u>**<br><br>**<u>Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, i sicrhau ei fod yn deg, yn gadarn ac yn galluogi datblygu. Mae'r Ddeddf yn ymdrin â 5 amcan allweddol:</u>**<br><br>• **<u>Fframwaith modern ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio – y Ddeddf yn cyflwyno pwerau i ganiatáu ceisiadau cynllunio gael eu gwneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan amgylchiadau cyfyngedig</u>**<br>• **<u>Cryfhau'r dull arwain gan gynllun - mae'r Ddeddf yn cyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol</u>** |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| | | • Gwella cydnerthedd - bydd y Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau cynllunio lleol i weithio gyda'i gilydd ac i awdurdodau cynllunio lleol i gael eu huno<br>• Blaenlwytho a gwella'r system rheoli datblygu - y Ddeddf yn cyflwyno gweithdrefn cyn ymgeisio statudol ar gyfer categorïau penodol o gais cynllunio<br>• Galluogi gorfodi ac apelio effeithiol – y Ddeddf yn galluogi newidiadau i weithdrefnau gorfodi i sicrhau y cymerir camau ystyrlon yn erbyn achosion o dorri rheolaethau cynllunio a chynyddu tryloywder ac effeithlonrwydd y system apêl. |
| **NMC 21** | Paragraff newydd 3.6b | ***Cynnwys cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:***<br><br>**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**<br><br>**Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddiben statudol ar gyfer y system cynllunio yng Nghymru – rhaid i unrhyw gorff statudol sy'n cyflawni swyddogaeth cynllunio arfer y swyddogaethau hynny yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Goblygiad y Gorchymyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Cychwyn Rhif 2 a darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed) 2015 yw nad ydi gofynion amrywiol adrannau o'r Ddeddf yn gymwys i gynlluniau datblygu a oedd wedi'u cyflwyno ar gyfer Archwiliad cyn 1 Ebrill 2016. Mae'r ddarpariaeth hon felly yn berthnasol i'r cynllun hwn. Serch hynny, mae'r Cynllun hwn wedi bod yn destun asesiad lefel uchel yn erbyn saith nod y Ddeddf: Cymru lewyrchus; Cymru Gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru ymatebol yn fyd-eang. Mae'r casgliadau cyffredinol yn gadarnhaol ac yn gyson â chasgliadau'r Asesiad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb a gafodd eu gwneud trwy gydol y broses paratoi'r Cynllun.** |
| **NMC 22** | 3.7 – 3.9 | ***Dileu pob testun ym mharagraffau 3.7 i 3.9. Oherwydd bod y Newid Materion sy'n Codi yma yn effeithio ar gyfres o baragraffau, ni ddangosir yr eirfa sy'n cael ei ddileu yma er mwyn arbed papur. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Cyfansawdd diwygiedig (Ionawr 2017 – DA043) yn dangos yr eirfa wedi'i ddileu.***<br><br>***Disodli'r testun gyda paragraffau newydd sy'n disgrifio'r Ddeddf Cymru 2017 a'i berthynas efo'r broses gwneud penderfyniad yn lleol:*** |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| | | **Deddf Cymru 2017**<br><br>**Cyflwynodd Deddf Cymru 2017, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017, newidiadau i weithrediad Deddf Cynllunio 2008 yng Nghymru. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn darparu bod prosiectau a ddiffinnir fel Prosiectau Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethol, e.e. gorsaf pŵer niwclear Wylfa Newydd, angen proses gydsynio gwahanol wedi'i sefydlu, oherwydd eu pwysigrwydd posibl i'r DU. O dan y weithdrefn gwneud penderfyniad am Brosiectau Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethol (PSoBC) yn Neddf Cynllunio 2008, mae cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) yn cael ei archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio, sydd wedyn yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol. Mae adran 43 o Ddeddf Cymru yn caniatáu cynnwys datblygu cyfeirir ato'n gyffredin fel "datblygu cysylltiedig" o fewn y cais ar gyfer GCD. Gellir disgrifio datblygiad cysylltiedig fel, er enghraifft, datblygiad sy'n cefnogi darparu a gweithredu PSoBC, a allai gynnwys gwaith fel gwelliannau priffyrdd, llety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu, cyfleuster parcio a theithio, canolfan logisteg, ayb. Mae'n golygu y gallai datblygwyr ddewis i gynnwys y math yma o ddatblygiad o fewn y cais GCD neu wneud cais ar wahân i Awdurdodau Cynllunio Lleol.**<br><br>**Mae PSoBC a'u "datblygiadau cysylltiedig" felly yn destun proses cynllunio ar wahan o fewn y gyfundrefn cynllunio ac nid oes gan y Cynllun yma'r un statws ar gyfer gwneud penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol o'I gymharu ag o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, lle mae'r Cynghorau ydi'r awdurdod gwneud penderfyniad. Fodd bynnag, mae Deddf Cynllunio 2008 yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi sylw i unrhyw Adroddiad Effaith Lleol (AELl) a gaiff ei baratoi gan awdurdod cynllunio ynghyd ag unrhyw faterion eraill y mae'n credu yn bwysig ac yn berthnasol i'r penderfyniad. Mae Pennod 7 y Cynlun yn llywio'r AELl i gael eu cyflwyno gan y Cynghorau I'r Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â gwneud penderfyniad ar unrhyw gais am ganiatâd datblygu.** |
| **NMC 23** | 3.10 | ***Diwygio'r paragraff i gyfeirio at gynlluniau a strategaethau lleol yn unig:***<br><br>Mae Tabl 5 yn rhoi crynodeb o'r prif gynlluniau a pholisïau ~~rhanbarthol a~~ lleol **sydd wedi dylanwadu ar y Cynllun**. ~~Nid yw'n rhestr gynhwysfawr – fel y nodwyd eisoes mae Papur Testun 2, yr Adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd, a'r Adroddiad Sgrinio'r Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys rhestr gynhwysfawr.~~ |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| **NMC 24** | Tabl 5 – cynlluniau a strategaethau rhanbarthol | ***Dileu'r pob testun yn Nhabl 5 sy'n cyfeirio at a disgrifio cynlluniau a strategaethau rhanbarthol oherwydd bod y wybodaeth ar gael mewn papurau testun perthnasol. Oherwydd bod y Newid Materion sy'n Codi yma yn effeithio ar gyfres o baragraffau, ni ddangosir yr eirfa sy'n cael ei ddileu yma er mwyn arbed papur. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Cyfansawdd diwygiedig (Ionawr 2017 – DA043) yn dangos yr eirfa wedi'i ddileu.*** |
| **NMC 25** | Tabl 5 – cynlluniau a strategaethau lleol | ***Dileu'r cyfeiriad i Ganllawiau Cynllunio Atodol Atomfa Niwclear Newydd yn Wylfa Newydd oherwydd bod y wybodaeth yma yn cael ei gynnwys ym Mhennod 7.3:***<br><br>Rhaglen Ynys Ynni Môn~~/ Canllaw Cynllunio Atodol Atomfa Niwclear Newydd yn Wylfa~~<br><br>Mae Rhaglen Ynys Ynni Môn yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o rhanddeiliaid yn y sector gyhoeddus a'r sector breifat (gan gynnwys Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru) i roi Ynys Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygu ynni, cynhyrchu a gwasanaethu, a fydd yn fodd o ddylanwadu ar ddatblygiad prosiectau isadeiledd mawr ddaw i neu a fydd yn effeithio ar yr ardal.<br><br>Mae Cyngor Sir Ynys Mon yn gweld datblygiad prosiectau mawr fel rhai allweddol i drawsnewid economi'r Ynys ar gyfer y dyfodol a darparu ansawdd bywyd uchel a chynaliadwy i drigolion Mon. Ar hyn o bryd y ddau brosiect mwyaf blaenllaw yw Wylfa Newydd a Phrosiect Cysylltiadau Grid Gogledd Cymru. Mae'r Cyngor yn buddsoddi llawer o adnoddau i sicrhau y gall yr Ynys fanteisio'n llwyr ar y buddsoddiad o'r tu allan gan y sector breifat.<br><br>~~Pwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yw galluogi Cyngor Sir Ynys Mon i chwarae rhan lawn yn y prosesau caniatâd cynllunio ar gyfer GNN Wylfa, boed fel ymgynghorai ar gyfer y Gorchymyn Caniatâd Datblygu, neu wrth ystyried ceisiadau o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref am ddatblygiadau cysylltiedig.~~ |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| | | |
| **NMC 26** | Tabl 5 - cynlluniau a strategaethau lleol | ***Dileu'r cyfeiriad at Gynllun Cyflogaeth Meirionnydd oherwydd bod y wybodaeth ar gael yn yr adroddiad Adolygiad Tir Cyflogaeth:***<br><br>~~Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd (2010)~~<br><br>~~Pwrpas y Cynllun hwn yw adnabod y sefyllfa cyflogaeth ym Meirionnydd gan gynnwys nifer y gweithlu posib a'r swyddi ar gael, strwythur yr economi, a sefyllfa ffyniant yr ardal - yn ogystal â nodi rhaglen waith bosib ar gyfer ymateb.~~<br><br>~~Nod y Cynllun yw cau'r bwlch cyfle gan fanteisio'n briodol ar gryfderau ac adnoddau Meirionnydd er mwyn sicrhau economi flaengar, fywiog a chynaliadwy gydag amrywiaeth o gyfleoedd gwaith o ansawdd uchel.~~<br><br>~~Dylai'r Cynllun hwyluso adfywio economaidd cynaliadwy yn yr ardal gan roi ystyriaeth lawn i nodau, amcanion a thargedau'r Strategaeth.~~<br><br>~~Dylai'r Cynllun wella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig.~~<br><br>~~Dylai'r Cynllun ddynodi safleoedd ar gyfer defnydd economaidd amrywiol ynghyd â'r isadeiledd ar gyfer cyflogaeth.~~<br><br>~~Dylai'r Cynllun gefnogi gweithgarwch economaidd priodol a gwella rhagolygon a chyfleoedd cyflogaeth gan ystyried y sectorau hynny sydd fwyaf angen cefnogaeth.~~<br><br>~~Dylai'r Cynllun annog bywiogrwydd economaidd canol trefi yn ogystal ag yng nghefn gwlad.~~ |
| **Pennod 4 Proffil gofodol a phrif faterion** | | |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| **NMC 27** | 4.7 | ***Diwygio i wella eglurder a chael gwared â'r cyfeiriad at y cam ymgynghori am y Cynllun Adnau:***<br><br>Mae'r prif faterion sydd angen eu taclo yn y Cynllun wedi cael eu hadnabod trwy roi ystyriaeth i dueddiadau allweddol ddaw i'r amlwg wrth ystyried strategaethau, cynlluniau a rhaglenni **amrywiol** ~~cyfeirir atynt ym Mhennod 3 ac wedi ei gynnwys yn y Papurau Testun~~; yr Asesiad Cynaliadwyedd; y wybodaeth waelodlin am faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a chasgliadau'r cyfnod cyfranogiad cyhoeddus cyn datblygu'r Hoff Strategaeth a'r ymgynghori cyhoeddus am yr Hoff Strategaeth. Gellir gweld gwybodaeth am y materion yma yn y Papurau Testun, Papurau Cefndir, ac Adroddiad yr Asesiad Cynaliadwyedd ~~sy'n cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a'r Cynllun Adnau~~ ac a restrir yn Atodiad 2. |
| **Pennod 5 Gweledigaeth ac Amcanion Strategol** | | |
| **NMC 28** | 5.4 | ***Diwygio'r eirfa i gyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol am Wylfa Newydd:***<br><br>Yn achos Ynys Môn, mae Rhaglen Ynys Ynni Môn wedi adnabod y weledigaeth ganlynol yn y Canllaw Cynllunio Atodol: Gorsaf Niwclear Newydd yn y Wylfa **(2017)** ~~(2014)~~ er mwyn osod dyheadau'r Cyngor ar gyfer Wylfa Newydd, sydd yn allweddol i drawsffurfio economi'r Ynys i'r dyfodol a darparu ansawdd bywyd hir dymor a chynaliadwy i drigolion Ynys Môn:<br><br>"Mae'r Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa yn sbardun ar gyfer trawsnewid yr economi a chymunedau yn Ynys Môn a fydd yn darparu cyfleoedd gwaith cynaliadwy, yn gwella ansawdd bywyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac yn hyrwyddo hunaniaeth a nodweddion unigryw lleol." |
| **NMC 29** | 5.8 Tabl 7 | ***Diwygio tabl 7 i adlewyrchu rhifau dangosyddion newydd a welir yn y fframwaith fonitro sydd ym Mhennod 8 a chynnwys amcan ychwanegol a gafodd ei gyflwyno trwy Newid a Ffocws NFf 6***<br><br>Tabl 7: cysylltiad rhwng yr amcanion, polisiau a dangosyddion monitro |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Amcanion** | **Polisiau** | **Dangosyddion monitro** |
| | | **Thema 1: Cynnal a chreu cymunedau diogel, iach, nodedig a bywiog** | | |
| | | SO1 | PS 1, ~~PS 2, ISA 1, ISA 2, PS 5, PCYFF 1, PS 8, PS 9, PS 10, CYF 1, CYF 3, CYF 4, CYF 5, CYF 6, CYF 7, PS 11, TWR 1, TWR 2, TWR 3, TWR 4, TWR 5, PS 12, MAN 4, MAN 5, MAN 6, PS 13, PS 14, PS 15, TAI 1, TAI 2, TAI 3, TAI 4, TAI 5, TAI 6, TAI 9, TAI 10, TAI 14, TAI 15, TAI 16,TAI 17, TAI 18, TAI 19~~ | D1, D2, **D3, D4** |
| | | SO2 | ~~PS 2,~~ ISA 1, ISA 2, ~~ISA 3,~~ ISA 4, ISA 5, ~~PS 3, TRA 2~~ | ~~D3, D8, D9, D10, D11~~ **D5, D6, D7, D8, D9, D10** |
| | | SO3<br><br>SO4 | ~~PS 4,~~ TRA 1, **TRA 2,**TRA 3, TRA 4<br><br>~~PS 4, PS 9~~ | ~~D4, D5, D6, D7,~~<br><br>~~D8, D10~~ **D11, D12, D13, D14, D15** |
| | | **Thema 2: Byw'n gynaliadwy** | | |
| | | SO5<br><br>SO6 | PS 5, PS 6, PCYFF 1, **PCYFF 1A**, ~~PCYFF 3, PCYFF 4, PCYFF 5~~<br><br>~~PS 5, PS 6, PCYFF 1, PCYFF 2, PCYFF 4, PCYFF 5, ARNA 1,~~ ADN 1, **ADN 1A,** ADN 2 | ~~D15,~~ D16, **D17, D18, D19,**<br><br>~~D12, D13, D14~~ **D20, D21, D22, D23** |
| | | SO7 | ~~PS 5, PCYFF 1,~~ PCYFF 2~~, PCYFF 3~~ | ~~D15~~ **D24** |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| SO8 | ~~PS 1, PS 2, PS 4, PS 15, TRA 4~~ **PS 15** | ~~D16~~ **D25** |
| **Thema 3: Cefnogi twf ac adfywiad a fydd yn trawsffurfio'r economi lleol o dan ymbarel Rhaglen Ynys Ynni Mon a strategaethau a chynlluniau eraill, gan adeiladu ar yr elfennau o'i broffil economaidd unigryw sy'n cael eu hadnabod yn arwyddocal yn rhanbarthol a chenedlaethol (economi ac adfywio)** | | |
| **SO8a** | **PS 9, PS 9A, PS 9B, PS 9C, TAI 3** | **D26, D27, D28, D29, D30** |
| SO9 | ~~PS 8, PS 9, PS 10,~~ CYF 1~~, CYF 2, CYF 3, CYF 4, CYF 6, CYF 7~~ | ~~D17, D18~~ **D31, D32, D33, D34,** |
| SO10 | PS 9, ISA 3 | ~~D10~~ **D35, D36** |
| SO11 | ~~PS 3, PS 8, PS 9, CYF 3, CYF 6, CYF 7, PS 11, TWR 1, PS 12~~ **CYF 5** | ~~D22, D23, D24~~ **D37** |
| SO12 | ~~PS 12,~~ MAN 1, MAN 2, MAN 3~~, MAN 7~~ | ~~D19, D20~~ **D38, D39, D40** |
| SO13 | PS 11, TWR 1, TWR 2, TWR 3, ~~TWR 4,~~ TWR 5 | ~~D22, D23~~ **D41, D42** |
| **Thema 4: I roi cyfle i bawb gael mynediad i gartref sy'n briodol i'w hanghenion (cyflenwad ac ansawdd tai)** | | |
| SO14 | PS 13, ~~PS 15,~~ TAI 14, TAI 15, TAI 16, TAI 17, TAI 18, TAI 19 | ~~D25, D26~~ **D43, D44, D45, D46** |
| SO15 | ~~PS 13,~~ PS 14~~, PS 15, TAI 1, TAI 2, TAI 3, TAI 4,~~ TAI 5~~, TAI 6, TAI 7, TAI 8,~~ TAI 9, TAI 10, TAI 11, TAI 12, TAI 13, | ~~D27, D28, D29, D30, D31, D32, D33, D34~~ **D47, D48, D49, D50, D51, D52, D53, D54, D55, D56, D57, D58** |
| **Thema 5: Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig (amgylchedd naturiol ac adeiledig)** | | |

<table>
<tr><th>Rhif NMC</th><th>Polisi/Para /Map</th><th>Newid Materion sy’n Codi</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>
<table>
<tr><td>SO16</td><td>PS 16, ~~AMG 1,~~ **AMG1A,** ~~AMG 2, AMG 3,~~ AMG 4, AMG 5, PS 17, AT 1, ~~AT 2, AT 3, AT 4~~</td><td>~~D35, D36, D37, D38, D39~~<br><br>**D59, D60, D61, D62, D63**</td></tr>
<tr><td>SO17</td><td>~~PS 18,~~ GWA 1~~, GWA 2, GWA 3~~</td><td>~~D42~~ **D64, D65**</td></tr>
<tr><td>SO18</td><td>PS 19, ~~MWYN 1, MWYN 2, MWYN 3, MWYN 4, MWYN 5,~~ MWYN 6, ~~MWYN 7, MWYN 8, MWYN 9, MWYN 10~~</td><td>~~D40, D41~~ **D66, D67, D68**</td></tr>
</table>
</td></tr>
<tr><td colspan="3">**Pennod 6 Y Strategaeth**</td></tr>
<tr><td>**NMC 30**</td><td>6.3</td><td>***Dileu’r testun er mwyn symleiddio’r Cynllun:***<br><br>~~Mae'r Strategaeth yn cymryd prif elfennau'r Weledigaeth ac Amcanion ac yn nodi’r prif ddefnydd tir y byddant yn eu cyflawni. Yn unol â'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd, y Strategaeth eang yw cryfhau cymunedau yn ardal y Cynllun. Mae'r Strategaeth yn cynnwys yr elfennau a ddisgrifir yn Nhabl 8.~~</td></tr>
<tr><td>**NMC 31**</td><td>Tabl 8</td><td>***Dileu’r tabl er mwyn symleiddio’r Cynllun:***<br><br>~~Tabl 8 : Prif elfennau’r strategaeth~~
<table>
<tr><th>~~Cymunedau cynaliadwy~~</th><th>~~Twf ac adfywio economaidd~~</th><th>~~Tai o ansawdd~~</th><th>~~Amgylchedd naturiol ac adeiledig~~</th></tr>
<tr><td>• ~~paru seilwaith ffisegol a chymdeithasol gyda datblygu~~</td><td>• ~~hwyluso darparu swyddi er mwyn cefnogi poblogaeth ardal~~</td><td>• ~~cyflenwad effeithiol o dir ar gyfer tai;~~</td><td>• ~~diogelu cynefinoedd, rhywogaethau, tirweddau,~~</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ~~cynaliadwy ac anghenion twf economaidd;~~<br>• ~~symudiad cynaliadwy drwy ystyried defnydd tir a hyrwyddo teithio gweithredol a chynaliadwy;~~<br>• ~~diogelu tir ar gyfer y ddarpariaeth seilwaith yn y dyfodol, gan gynnwys llwybrau.~~ | ~~y Cynllun a'r economi ehangach;~~<br>• ~~cadw tir cyflogaeth presennol rhag datblygiad amhriodol;~~<br>• ~~hwyluso mwy o argaeledd tir cyflogaeth;~~<br>• ~~annog busnesau presennol a newydd i fuddsoddi;~~<br>• ~~hyrwyddo tyfiant y sector twristiaeth a gweithgareddau diwylliannol drwy gydol y flwyddyn.~~ | • ~~Dewis o fathau o dai, maint a daliadaeth i gwrdd â gofynion ystod o wahanol aelwydydd o fewn cymunedau lleol, gan gynnwys darparu lefel briodol o dai fforddiadwy yn seiliedig ar anghenion lleol diffiniedig;~~<br>• ~~Annog, lle'n briodol, datblygiadau tir llwyd a defnyddio adeiladau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys tai gwag hir dymor yn flaenoriaeth.~~ | ~~treflun iau, archaeoleg, adeiladau hanesyddol a henebion, gan ganiatáu datblygiad nad yw'n cael effaith andwyol ar yr asedau hyn, neu gorau oll sy'n eu gwella;~~<br>• ~~diogelu dyddodion mwynau.~~ |

<table>
<tr><th>Rhif NMC</th><th>Polisi/Para /Map</th><th>Newid Materion sy’n Codi</th></tr>
<tr><td>NMC 32</td><td>6.4</td><td>Dileu’r geiriau er mwyn symleiddio’r Cynllun:<br><br><s>Mae nifer o themâu trawsbynciol wedi hysbysu'r Cynllun, gan ddylanwadu ar ac ategu dewisiadau a chyfeiriad polisïau, cynigion a safleoedd datblygu. Disgrifia Tabl 9 y themâu trawsbynciol.</s></td></tr>
<tr><td>NMC 33</td><td>Tabl 9</td><td>Dileu’r tabl er mwyn symleiddio’r Cynllun:<br><br><s>Tabl 9 Y themâu trawsbynciol</s>
<table>
<tr><th><s>Iaith a’r diwylliant Cymraeg</s></th><th><s>Newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy</s></th><th><s>Creu llefydd o ansawdd</s></th></tr>
<tr><td><ul><li><s>hyrwyddo cymunedau ffyniannus a chynaliadwy sy'n cefnogi gwasanaethau lleol gan gynnwys darparu tai ychwanegol a datblygiadau cysylltiedig yn gymesur â gofyniad lleol;</s></li><li><s>cefnogi economi leol datblygedig, ffyniannus ac amrywiol.</s></li></ul></td><td><ul><li><s>sicrhau bod technolegau cynhyrchu ynni di-garbon/carbon isel ac effeithlonrwydd adnoddau uchel yn cael eu hymgorffori o fewn y datblygiad;</s></li><li><s>cofleidio dyluniad ac adeiladu cynaliadwy o ansawdd mewn datblygiadau newydd;</s></li><li><s>osgoi, lliniaru neu addasu i achosion y newid yn yr</s></li></ul></td><td><ul><li><s>hybu datblygiad newydd o ansawdd uchel;</s></li><li><s>diogelu a gwella nodweddion diwylliannol, hanesyddol a thirwedd bwysig;</s></li><li><s>diogelu, hybu ac ehangu rhwydweithiau a chynefinoedd gwyrdd;</s></li><li><s>integreiddio datblygiad newydd i'r seilwaith</s></li></ul></td></tr>
</table></td></tr>
</table>

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| | | ~~hinsawdd~~ ~~cymunedol sy'n bodoli eisoes.~~ |
| **NMC 34** | 6.8 | ***Dileu'r geiriau er mwyn symleiddio'r Cynllun. Mae'r wybodaeth i'w gael mewn dogfennau eraill:***<br><br>~~Mae detholiad a chategoreiddio aneddleoedd yn seiliedig ar ddata a'i ddadansoddiad fel y nodir ym Mhapur Testun 5: Datblygu'r strategaeth aneddleoedd (Mai 2013). Yn y Papur, caiff aneddleoedd eu rhestru yn ôl nifer o ffactorau a'r cydadwaith rhyngddynt. Cynhwysa'r ffactorau hyn y boblogaeth, nifer y cyfleusterau manwerthu, cyflogaeth, cymunedol a gwasanaeth a geir ynddynt, a'u mynediad at gludiant cyhoeddus a'r cysylltiadau swyddogaethol rhyngddynt. Caiff cyfleusterau eu pwysoli i adlewyrchu'r ffaith bod rhai cyfleusterau yn fwy gwerthfawr nag eraill o ran y manteision cynaliadwyedd a ddarperir ganddynt.~~ |
| **NMC 35** | 6.12 – 6.18 | ***Dileu'r geiriau er mwyn symleiddio'r Cynllun. Mae'r wybodaeth i'w gael mewn dogfennau eraill:***<br><br>~~Dylai'r dull hwn wneud y defnydd gorau o'r seilwaith presennol, hyrwyddo gwelliannau lle bo angen, hyrwyddo defnydd effeithiol o dir ac adeiladau, a gwneud teithio'n fwy cynaliadwy.~~<br><br>~~Lle bo modd, rhoddwyd blaenoriaeth i ailddefnyddio tir addas a ddatblygwyd yn flaenorol (h.y. tir llwyd) ac adeiladau presennol drwy eu nodi fel ffynonellau ar gyfer datblygu yn y dyfodol yn ystod oes y Cynllun. Mae'r Astudiaeth Cynhwysedd Trefol Canolfannau, a ddangosir ar Fap Diagramatig 9 a 10 ac a restrir yn Atodiad 4, wedi hysbysu'r elfen hon o'r Cynllun. Gweler y cyfleoedd a amlygwyd ar sail anheddle unigol ym Mhapur Testun 6: Astudiaeth Cynhwysedd Trefol, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau. Ceir polisïau yn y Cynllun sy'n hwyluso'r gwaith o ddatblygu tir llwyd ac adeiladau sy'n bodoli eisoes, lle mae hynny'n briodol.~~<br><br>~~O ben i ben, mae'r gallu i gyfarch y dosbarthiad gofodol arfaethedig o anheddle i anheddle yn cael ei ddylanwadu i raddau gan y gallu i ymdopi gyda datblygiad yn y lleoliadau a ddewisir. Dewiswyd y safleoedd ar gyfer pob anheddle yn dilyn dadansoddiad manwl o gynhwysedd amgylcheddol, isadeiledd a chymdeithasol yr aneddleoedd unigol ac asesiad y gwahanol opsiynau safleoedd a gafodd eu hawgrymu. Mae'r dadansoddiadau manwl i'w gweld ym Mhapur Testun 1: Diweddariad Asesu Safleoedd Posib a'r adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a gafodd eu cyhoeddi fel dogfennau cefndir ar yr un pryd a'r Cynllun Adnau.~~ |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| | | ~~Wrth benderfynu dosbarthiad gofodol safleoedd tai newydd roedd rhaid rhoi sylw i'r cyflenwad presennol o ddatblygiad hefyd. Mae'r cyflenwad cyfredol o dai'n cynnwys tir gyda chaniatâd cynllunio a safleoedd ar hap, fel gwelir yn y gyfres o bolisïau tai ym Mhennod 7 y Cynllun yma. Dim ond yn y Ganolfan Isranbarthol, Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol a Phentrefi Gwasanaeth y caiff safleoedd eu dynodi ynddynt a dim ond os nad all y banc tir presennol a safleoedd ar hap ymdopi gyda'r lefel dangosol o dwf.~~<br><br>~~Oherwydd y cyfyngiadau ffisegol sylweddol ym Mlaenau Ffestiniog a'r mentrau adfywio sydd yn eu lle i ddenu cyfleoedd buddsoddi newydd yn lleol, mae'r Strategaeth yn cynnig defnydd cymharol uwch o dir llwyd ac adeiladau o fewn yr anheddle o'i gymharu ag aneddleoedd eraill. Bydd yr elfen hon o'r Strategaeth yn cael ei fonitro a'i adolygu, a bydd yn cynnwys trafodaeth gydag Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gan fod aneddleoedd o fewn eu hardaloedd gweinyddol a all gyfrannu yn y tymor hir at ddarparu ateb, os oes angen.~~<br><br>~~Er bod Porthmadog yn cael ei amddiffyn yn erbyn llifogydd, mae rhannau helaeth o'r anheddle yn cael eu categoreiddio fel rhai o fewn Parth C1 (gweler y Map Cyfyngiadau). Un o swyddogaethau craidd y Cynllun yw sicrhau bod pob datblygiad yn gynaliadwy, gan roi sylw i oblygiadau ymdopi gyda newid hinsawdd. Nid yw datblygiadau a fyddai'n arwain at leihau cynhwysedd storio'r gorlifdir neu amharu ar lif llifogydd yn cael eu hannog o gwbl. Ar sail hyn a diffyg cyfleoedd addas du hwnt i'r parth llifogydd, ni all y Cynllun ddynodi tir ar gyfer tai ym Mhorthmadog. Er hynny fe ellir hyrwyddo tai newydd ar safleoedd llwyd/ ar hap cyn belled â'u bod nhw'n gyson a pholisi cynllunio lleol a pholisi cynllunio cenedlaethol a welir yn Pholisi Cynllunio Cymru a NCT15. Oherwydd hyn mae'r cyflenwad o dir ar gyfer tai yn llai, sy'n golygu na all y Ganolfan ymdopi a'r twf a fyddai fel arfer yn cael ei gyfeirio ato. Yn dilyn y ffactor hwn, bu'n rhaid nodi lleoliadau eraill yn y dalgylch sy'n gyson a'r strategaeth ofodol a fyddai'n cynorthwyo i gwrdd â'r angen am dai, a fyddai fel arall yn cael eu darparu yn y Ganolfan Gwasanaethau Trefol. Golyga materion tebyg yn Nhremadog gerllaw na all gyfrannu at gynnig yr ateb.~~<br><br>~~Ar ôl ystyried amrywiaeth o ffactorau, dewiswyd Cricieth a Phenrhyndeudraeth. Mae'r ddwy Ganolfan Gwasanaethau Lleol â chysylltiadau cludiant da â Phorthmadog, ac mae gan bob un lefel dda o wasanaethau sy'n rhoi cyfle i drigolion gerdded iddynt i ddiwallu eu gofynion bob dydd, gan leihau'r angen i deithio i Borthmadog. Mae'r ymagwedd yma'n cyd-fynd a'r dyheadau i gadw'r budd yn lleol. Golyga hyn bod Cricieth a Phenrhyndeudraeth, yn unol â'r Goeden Aneddleoedd, yn derbyn cynnydd mewn cyfleoedd twf tai. Mae Pennod 7 y Cynllun yn darparu gwybodaeth fanwl am lefelau twf tai i bob anheddle.~~ |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| **NMC 36** | 6.19 | ***Dileu'r geiriau oherwydd bod y wybodaeth ar gael mewn dogfennau eraill:***<br><br>Hysbysir y Cynllun gan ystod o asesiadau gan gynnwys yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac Asesiad Perygl Llifogydd Strategol Lefel 1. ~~Ystyrir y gall hyfywedd y ddarpariaeth leol o fewn y Canolfannau Gwasanaethau Lleol hyn gael ei wella drwy gael ei gefnogi gan boblogaeth fwy o fewn pellter cerdded. O ystyried rôl barhaus Porthmadog fel Canolfan Gwasanaethau Trefol, bydd rhai pobl yng Nghricieth a Phenrhyndeudraeth a'r pentrefi cyfagos a fydd yn parhau i fod angen teithio i Borthmadog, er enghraifft, at ddibenion cyflogaeth, cyfleoedd siopa amgen neu fancio. Fodd bynnag, bydd eu taith yn fyrrach na'r daith i'r Canolfannau Gwasanaethau Trefol agosaf eraill, ac mae'r dewis o ddulliau cludiant yn cynnwys bws a thrên. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ail-werthuso'r opsiynau ar gyfer twf yng Nghricieth a Phenrhyndeudraeth yn adolygiad cyntaf y Cynllun.~~ |
| **NMC 37** | 6.20 | ***Diwygio i gyfeirio at ffiniau 'datblygu' yn lle 'aneddleoedd' a chael gwared â'r cyfeiriad at 'adnau':***<br><br>Ffiniau **datblygu** ~~aneddleoedd~~<br><br>Er mwyn darparu arweiniad cadarn i asesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio, caiff pob anheddle ei ddiffinio'n ofodol. Mae'r Cynllun ~~Adnau~~ wedi diffinio ffiniau datblygu o amgylch y Ganolfan Isranbarthol, Canolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Lleol, a Phentrefi Gwasanaeth/ Lleol/ Arfordirol/ Gwledig. Nid oes ffiniau **datblygu** ~~anheddle~~ mewn Clystyrau. Yma, bydd yn ofynnol i ddatblygiadau berthnasu'n dda â'r ffurf adeiledig bresennol, a ddangosir ar y Mapiau Cynigion trwy liwio'r adeiladau sy'n ffurfio eu craidd. Ffurfir ffiniau datblygu a chlystyrau er mwyn: |
| **NMC 38** | 6.22 | ***Dileu'r geiriau er mwyn symleiddio'r Cynllun:***<br><br>~~Mae'r Strategaeth yn gwarchod ardaloedd y tu allan i'r ffin ddatblygu a'r Clystyrau dynodedig, h.y. y cefn gwlad, rhag datblygiad ar wahân i'r defnyddiau hynny sy'n hanfodol i leoliad gwledig ac na fydd yn niweidio'i gymeriad na'i olwg. Pwysleisia'r Cynllun y polisi~~ |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| | | ~~cynllunio cenedlaethol a deddfwriaeth sy'n rheoli datblygu mewn ardaloedd a warchodir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac mae'n pwysleisio'r angen i gynnal Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac ardaloedd bioamrywiaeth neu ddiwylliannol penodol sydd yn bwysig yn lleol.~~ |
| **NMC 39** | 6.27 | ***Dileu'r geiriau er mwyn symleiddio'r Cynllun. Mae'r wybodaeth ar gael mewn dogfennau eraill a rhannau eraill o'r Cynllun:***<br><br>~~Er bod y Cynllun yn cael ei gynhyrchu pan fo ardal y Cynllun yn dal i ddioddef effaith y dirwasgiad, gyda galw isel am bob math o eiddo a thir yn sgil hynny, mae achos cryf dros fod yn obeithiol o fewn ardal y Cynllun sy'n gysylltiedig â'r gyflogaeth gynyddol sylweddol a digynsail ddisgwyliedig yn sgil adeiladu Wylfa Newydd a datblygu prosiectau seilwaith mawr eraill. Rhagwelir y bydd £2.5 biliwn yn deillio i economi Ynys Môn a Gogledd Cymru dros y 15 mlynedd nesaf. Hefyd ystyrir bod y sectorau traddodiadol yn bwysig, gan gynnwys twristiaeth, amaethyddiaeth a gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig addysg, a gwasanaethau gofal a iechyd.~~ |
| **NMC 40** | 6.28 | ***Diwygio trwy gael gwared â geiriau sy'n rhoi gwybodaeth a allir ei gael yn rhywle arall ac i ddiweddaru'r wybodaeth am y Safleoedd Menter:***<br><br>Bydd cyflenwi Wylfa Newydd a phrosiectau strategol mawr eraill yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol gan y sector preifat. ~~Byddant angen buddsoddiadau mawr mewn seilwaith, gan ddod â chyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol o bwys, yn ogystal â heriau. Mae rôl bwysig gan y Cynllun o ran hwyluso datblygiad cynaliadwy'r prosiectau hyn wrth warchod diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd naturiol unigryw yr ardal. Bydd y Cynghorau mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, hyrwyddwyr prosiect a sefydliadau busnes yn hyrwyddo a chefnogi datblygu economaidd cynaliadwy.~~ Er mwyn hybu gweithgarwch economaidd ar Ynys Môn dynodwyd yr Ynys yn Ardal Fenter. ~~Fel y nodwyd ym Mhennod 3~~ Mae rhoi statws Ardal Fenter i Ynys Môn yn ategu'r Rhaglen Ynys Ynni Môn bresennol, a sefydlwyd i ddod â swyddi sgiliau uchel i'r ardal o fuddsoddiadau ynni mawr a sefydlu'r ynys fel canolfan ragoriaeth fyd-enwog mewn cynhyrchu ynni carbon isel. Mae ~~naw~~ **<u>deg</u>** o safleoedd allweddol ar yr Ynys wedi eu hadnabod i fod yn destun i gymorth â ffocws. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dynodi Ardal Fenter Eryri, a allai, er ei bod wedi'i lleoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri, helpu i ledaenu ffyniant y tu hwnt i ffiniau gweinyddol y Parc. |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| **NMC 41** | 6.29 | ***Dileu'r geiriau er mwyn symleiddio'r Cynllun:***<br><br>~~Mae rôl y sector addysg bellach ac addysg uwch yn ganolog i dyfu gwerth masnachol gwaith ymchwil, er enghraifft mewn gwyddorau biolegol, cyfrifiadurol, meddygol a môr; ynni adnewyddadwy a charbon isel; gwyddorau bywyd, a bwyd yn ogystal â gwella sgiliau pobl fel eu bod yn gallu gwneud y gorau o gyfleoedd cyflogaeth a allai ddatblygu'n lleol yn y dyfodol. Mae manteision posibl i'r economi leol mewn lleoliadau yn agos at y brifysgol a cholegau ardal y Cynllun, sy'n cynnwys Parc Gwyddoniaeth Menai arfaethedig ger Gaerwen, Ynys Môn.~~ |
| **NMC 42** | 6.30 | ***Dileu'r geiriau er mwyn symleiddio'r Cynllun:***<br><br>~~Bydd darparu fframwaith sy'n hwyluso datblygiadau sy'n cynnal, gwella, moderneiddio ac arallgyfeirio'r economi yn darparu un o'r blociau adeiladu sy'n gallu cyfrannu at gynnal, cryfhau neu greu cymunedau Cymraeg eu hiaith.~~ |
| **NMC 43** | 6.32 | ***Newid i egluro'r Cynllun a chael gwared â'r cyfeiriad i gyhoeddiad dogfen ar gyfer cam blaenorol yn y broses paratoi'r Cynllun:***<br><br>Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth (2012)~~, a gyhoeddwyd fel Papur Cefndir ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau,~~ a dadansoddiad o wybodaeth fwy diweddar yn arwain at yr angen i ddiogelu **642.9ha o dir cyflogaeth gyfredol yn ardal y Cynllun ac i** ~~a~~ dynodi tua ~~800~~ **55.1** ha **o safleoedd newydd** yn ardal y Cynllun, gyda 144.1 ha ychwanegol fel cyflenwad wrth gefn ar yr Ynys. Bydd y Cynllun yn:<br><br>i. diogelu ~~ardaloedd~~ **safleoedd** busnes a diwydiant sefydledig, lle bydd trosiant a phlotiau gwag yn lletya busnesau newydd;<br>ii. dynodi safleoedd newydd ar gyfer busnesau newydd neu alluogi busnesau presennol i ehangu **ac ail-leoli**;<br>*iii.* darparu cyfleoedd i fusnesau ddatblygu ar safleoedd eraill os sefydlir angen penodol na ellir ei letya ar safle a ddiogelwyd neu a ddynodwyd; a<br>*iv.* darparu cyfleoedd i fusnesau ddatblygu mewn ardaloedd gwledig. |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| **NMC 44** | 6.33 | ***Dileu'r geiriau er mwyn symleiddio'r Cynllun:***<br><br>~~Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd a ddiogelwyd neu a ddynodwyd wedi'u lleoli yn neu'n agos at y Canolfannau a nodwyd yn y goeden aneddleoedd, gyda chysylltiadau cludiant da ac yn agos at dai er mwyn lleihau'r angen am siwrneiau car hir ac annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus. Bydd yr holl safleoedd busnes a diwydiant sydd naill ai wedi'u diogelu neu eu dynodi yn y Cynllun yn cael eu hadolygu o leiaf bob pum mlynedd er mwyn sicrhau bod cyflenwad o dir effeithiol yn ardal y Cynllun.~~ |
| **NMC 45** | 6.35 | ***Dileu'r cyfeiriad at gyhoeddiad dogfen yn ystod gam flaenorol yn ystod proses paratoi'r Cynllun:***<br><br>Mae'r Astudiaeth Anghenion Manwerthu (2012),~~ a gyhoeddwyd fel Papur Cefndir ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau,~~ yn nodi'r potensial ar gyfer arwynebedd llawr ychwanegol mewn lleoliadau penodol. Nodwyd ffiniau Canol Trefi ar gyfer y canol trefi mwy o faint a restrir yn y rhwydwaith o ganolfannau ynghyd â ffiniau ar gyfer y prif ardaloedd siopa. Byddai angen i geisiadau yn y canolfannau hyn fod ar raddfa a natur gydnaws â rôl a swyddogaeth y ganolfan honno. |
| **NMC 46** | 6.37 | ***Dileu'r geiriau er mwyn symleiddio'r Cynllun. Mae'r wybodaeth ar gael mewn man arall:***<br><br>~~Ystyriwyd nifer o ddewisiadau datblygu mewn perthynas â lefelau twf tai a dosbarthiad gofodol cyffredinol cyn cyhoeddi'r Hoff Strategaeth y Cynllun ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus (Mai a Mehefin 2013). Nododd yr Hoff Strategaeth y cyfiawnhad rhesymegol dros gynnig opsiwn a oedd yn is na phrif ragolygon poblogaeth ac aelwydydd sail-2008 Llywodraeth Cymru, ond ychydig yn uwch na'r cyfraddau adeiladu tymor hir y gorffennol.~~ |
| **NMC 47** | 6.38 | ***Dileu'r geiriau er mwyn symleiddio'r Cynllun. Mae'r wybodaeth ar gael mewn man arall:***<br><br>~~Datgelodd y broses ymgynghori ffurfiol farn gyferbyniol am y dewis a ffafrir (gweler yr Adroddiad Ymgynghori a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau). Ers yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr Hoff Strategaeth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei ragolygon poblogaeth ac aelwydydd sail-2011. Mae Polisi Cynllunio Cymru (paragraff 9.2.2) yn datgan y dylai rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd~~ |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| | | ~~diweddaraf Llywodraeth Cymru a gynhyrchwyd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol fod yn fan cychwyn ar gyfer asesu gofynion tai'r ardal.~~ |
| **NMC 48** | 6.39 | ***Dileu'r geiriau er mwyn symleiddio'r Cynllun. Mae'r wybodaeth ar gael mewn man arall:***<br><br>~~Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf sail-2011 ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd i gyd yn dangos safbwyntiau cyferbyniol am y lefel o dwf tai sydd ei angen yn ardal y Cynllun hyd at 2026. Felly, gwnaed gwaith ychwanegol er mwyn sicrhau bod lefel y twf yn y Cynllun Adnau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a diweddaraf. Ceir cofnod o'r ffactorau a ystyriwyd ym Mhapur Testun 4: Disgrifio'r Twf Tai a Gofodol (2013 a 2014), sydd yn ei dro yn cyfeirio at gyfres o Bapurau Testun perthnasol a Phapurau Cefndir eraill. Hefyd hysbyswyd y broses o ddewis targed tai sengl gan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.~~ |
| **NMC 49** | 6.40 | ***Cynnwys geiriau er mwyn egluro pa gyfradd gwacter a ddefnyddiwyd i adnabod y gofyniad tai:***<br><br>Mae'r gofyniad ~~sylfaenol~~ ar gyfer tai (y targed) i ardal y Cynllun, h.y. 7,184, sy'n rhoi ystyriaeth i'r gyfradd llefydd gwag **<u>(12.2% yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a 10.5% yn ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Mon)</u>**, yn seiliedig ar y dystiolaeth i gyd ac mae ganddo berthynas uniongyrchol â rhagolygon twf ardal y Cynllun a dyheadau'r ddau Gyngor. Ystyrir bod cysylltu gofynion tai i ragolygon economaidd ehangach yn gwella cadernid a'r gallu i gyflenwi Strategaeth y Cynllun. Rhagwelir y bydd yn cyfrannu at roi cyfle a lle i fyw a gweithio yn ardal y Cynllun. Mae lefel y twf yn adlewyrchu effeithiau'r dirwasgiad, yn ogystal â'r rhagolygon economaidd trawsnewidiol a ddisgwylir yn nes ymlaen yn ystod cyfnod y Cynllun. Bydd y Cynllun yn hwyluso'r datblygiad sy'n ofynnol i ategu cynlluniau a rhaglenni strategol pob Cyngor. Dylai hyn olygu y bydd yr ardal yn dechrau dod yn fwy oedran-gytbwys, yn fwy annibynnol ac yn llai dibynnol ar ffynonellau allanol o lafur, gyda chyfle i leihau'r lefelau cymudo allan, a bod ar ei ffordd i fod yn set o gymunedau mwy cynaliadwy a hunangynhaliol. |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| **NMC 50** | 6.41 | ***Cynnwys geiriau er mwyn gwella eglurder a sicrhau cysondeb mewnol:***<br><br>Er mwyn sicrhau bod gan y cyflenwad tai'r hyblygrwydd angenrheidiol ar gyfer cyflenwad parhaus o dai newydd, hyd yn oed os oes newidiadau i'r cyflenwad tir effeithiol na ellir eu rhagweld yn digwydd yn ystod cyfnod y Cynllun, ychwanegwyd lwfans llithriad o 10% at y targed ~~cyffredinol~~. Felly'r ~~gofyniad~~ mae'r Cynllun yn rhoi **cyflenwad** tir ar gyfer ~~tai cyffredinol yw~~ 7,902 **o unedau tai yn** ~~i~~ ardal y Cynllun yn ystod cyfnod y Cynllun (2011 - 2026). Mae hyn yn golygu **cyflenwad tir ar gyfer** 3,817 unedau tai i Ynys Môn a 4,084 i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. |
| **NMC 51** | 6.42 | ***Diwygio i sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun:***<br><br>Yn unol â'r strategaeth ofodol, bydd ~~hyd at 55%~~ **53%** o'r galw am dir ar gyfer tai'n cael ei gyfeirio at Fangor (y Ganolfan Isranbarthol) a'r Canolfannau Gwasanaethau Trefol gyda'i gilydd **a 22%** ~~ac o leiaf 20%~~ i'r Canolfannau Gwasanaethau Lleol. Y rhain yw'r aneddleoedd mwyaf lle ceir crynodiadau o gyfleusterau, cyfleoedd cyflogaeth a dewisiadau cludiant. Disgwylir i'r gweddill (~~dim mwy na~~ 25%) gael eu cyflenwi mewn Pentrefi, Clystyrau a'r cefn gwlad. |
| **NMC 52** | 6.43 | ***Diwygio i wella eglurder:***<br><br>**Ar sail gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys Cyd Astudiaeth Tir ar gyfer Tai Gwynedd 2015 a'r Datganiad Monitro Tir ar gyfer Tai Ynys Mon 2015,** ~~mae~~ **gallai** oddeutu hanner y gofyniad cyffredinol ~~tir~~ ar gyfer tai ~~yn cael~~ **gael** ei ddiwallu o safleoedd tai sydd eisoes â budd caniatâd cynllunio arnynt o dan yr **hen** gynlluniau datblygu ~~presennol~~ neu o dan **hen** **Bolisïau Dros Dro** ~~ystyriaethau cynllunio materol eraill~~. Ceir mwy o fanylion am hyn yn Atodiad 5. ~~Caiff y diffyg ei gwrdd drwy hap-safleoedd, adeiladau sydd eisoes yn bodoli a safleoedd newydd a ddewiswyd er mwyn cynnig hyblygrwydd a dewis. Ceir mwy o fanylion am hyn ym Mhennod 7.~~ |
| **NMC 53** | 6.44 | ***Dileu'r geiriau i symleiddio'r Cynllun:***<br><br>~~Mae'r dirwasgiad economaidd wedi cael, ac mae'n parhau i gael, effaith ar y diwydiant adeiladu tai gan fod adeiladwyr tai a phrynwyr posibl fel ei gilydd yn wynebu anawsterau i gael cyllid a morgeisi. Arweiniodd hyn at gyfraddau cwblhau is nag a welwyd yn ystod y~~ |

| Rhif NMC | Polisi/Para /Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|
| | | ~~cyfnod cyn y dirwasgiad. Felly, mae'n debygol y bydd nifer o safleoedd a nodwyd yn y Cynllun hwn yn cymryd mwy o amser i'w cyflenwi, ac mae'r amseru'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r penderfyniad i fuddsoddi yn Wylfa Newydd a llwyddiant mecanweithiau a ddefnyddir yn yr Ardal Fenter. Rhagwelir y gellir cyflenwi tua 2,368 o unedau tai yn ystod 2011 - 2018, gyda'r gweddill yn cael eu darparu yn y rhan olaf cyfnod y Cynllun. Bydd y cyflenwad tir yn helpu i sicrhau na fydd y diffyg tir effeithiol ar gyfer tai yn dod yn rhwystr i adferiad economaidd.~~ |
| **NMC 54** | 6.45 | ***Diwygio i wella eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun:***<br><br>Gall nifer ac ansawdd y tai helpu i gwrdd ag anghenion a dyheadau amrywiol yr aelwydydd yn ardal y Cynllun, a chefnogi buddsoddiad yn yr economi. **Mae'r Cynghorau o'r farn bod y dull yma yn sicrhau cysondeb rhwng cyflogaeth a thai a fydd yn arwain at batrwm datblygu mwy cynaliadwy, a fydd yn ei dro yn gwella cadernid y Cynllun.** |